(a) mix in a premixture or feeding stuff, with an additive which is not a zootechnical additive, another additive which is not a zootechnical additive, unless such mixing is in accordance with Article 9q2 of the Additives Directive, or

Ychwanegion, na

(b) cymysgu micro-organedd gydag ychwanegyn söotechnegol, oni bai bod y cymysgu hwnnw wedi'i ganiatáu fel y'i pennir yn Erthygl 9q4 o'r Gyfarwyddeb Ychwanegion.

(b) mix a micro-organism with a zootechnical additive, unless such mixture is permitted as specified in Article 9q4 of the Additives Directive.

(8) Ni fydd paragraff (2) uchod, i'r graddau y mae'n rheoleiddio "rhoi mewn cylchrediad", na pharagraff (6) uchod, yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ychwanegyn sydd wedi'i hepgor o gymhwysiad y Gyfarwyddeb Ychwanegion gan Erthygl 22 ohoni.

(8) Paragraph (2) above, in so far as it regulates "putting into circulation", and paragraph (6) above, shall not apply in relation to any additive which is excluded from the application of the Additives Directive by Article 22 thereof.

(9) Ni chaiff neb ddefnyddio fel porthiant unrhyw ddeunydd sy'n cynnwys unrhyw ychwanegyn na chaniateir ei gynnwys mewn deunydd yn unol â pharagraff 5(1) o'r Tabl i Atodlen 3, neu y cyfeirir ato yn unrhyw un o Rannau I i VIII ohono, neu sydd wedi'i awdurdodi fel arall, sy'n andwyol i greaduriaid fferm, i anifeiliaid anwes, i fodau dynol neu i'r amgylchedd.

(9) No person shall use as a feeding stuff any material containing any additive, not being one permitted to be contained in material pursuant to paragraph 5(1) of, or referred to in any of Parts I to VIII of, the Table to, Schedule 3, or which is otherwise authorised, which is deleterious to farmed creatures, to pet animals, to human beings or to the environment.

**Rheoli porthiant a deunyddiau
porthiant sy'n cynnwys deunyddiau
annymunol**

12.-(1) Ni chaiff neb werthu, na meddiannu gyda golwg ar werthu, i'w ddefnyddio fel porthiant, na defnyddio fel porthiant, unrhyw ddeunydd a bennir yng ngholofn 2 o Ran I o Atodlen 7, sy'n cynnwys unrhyw sylwedd a bennir yng ngholofn 1 o'r Rhan honno uwchlaw'r lefel a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn 3 ohoni.

(2) Ni chaiff neb werthu, na meddiannu gyda golwg ar werthu, i'w ddefnyddio fel porthiant, na defnyddio fel porthiant, unrhyw borthiant cydategol –

- (a) os yw, o'i wanhau fel y'i pennir gan y gweithgynhyrchydd i'w fwydo i anifeiliaid, yn cynnwys unrhyw sylwedd a bennir yng ngholofn 1 o Ran I o Atodlen 7, uwchlaw'r lefel a bennir yng ngholofn 3 o'r Rhan

**Control of feeding stuffs and feed
materials containing undesirable
substances**

12.-(1) No person shall sell, or have in possession with a view to sale, for use as a feeding stuff, or use as a feeding stuff, any material specified in column 2 of Part I of Schedule 7, which contains any substance specified in column 1 of that Part in excess of the level specified in relation thereto in column 3 thereof.

(2) No person shall sell, or have in possession with a view to sale, for use as a feeding stuff, or use as a feeding stuff, any complementary feeding stuff if –

- (a) when it is diluted as specified by the manufacturer for feeding to animals, it contains any substance specified in column 1 of Part I of Schedule 7, in excess of the level specified for that substance in column 3 of that

honnno mewn perthynas â phorthiant cyflawn, a	Part in relation to complete feeding stuffs, and
(b) os nad oes darpariaeth yn ymwneud ag unrhyw borthiant cydategol yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Rhan honno.	(b) there is no provision relating to any complementary feeding stuffs in the corresponding entry in column 2 of that Part.
(3) Ni chaiff neb roi mewn cylchrediad unrhyw ddeunydd porthiant a bennir yng ngholofn 2 o Bennod A o Ran II o Atodlen 7, sy'n cynnwys unrhyw sylwedd a bennir yng ngholofn 1 o'r Rhan honno uwchlaw'r lefel a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn 3 ohoni.	(3) No person shall put into circulation any feed material specified in column 2 of Chapter A of Part II of Schedule 7, which contains any substance specified in column 1 of that Part in excess of the level specified in relation thereto in column 3 thereof.
(4) Heb ragfarnu paragraff (3) uchod, ac yn ddarostyngedig i baragraff (5) isod, ni chaiff neb roi mewn cylchrediad unrhyw ddeunydd porthiant a bennir yng ngholofn 2 o Bennod A o Ran II o Atodlen 7, neu yng ngholofn 2 o Bennod B o'r Rhan honno, sy'n cynnwys unrhyw sylwedd a bennir mewn perthynas â'r deunydd o dan sylw yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 1 o'r Bennod o dan sylw, uwchlaw'r lefel a bennir yng	(4) Without prejudice to paragraph (3) above, and subject to paragraph (5) below, no person shall put into circulation any feed material specified in column 2 of Chapter A of Part II of Schedule 7, or in column 2 of Chapter B of that Part, which contains any substance specified in relation to the material in question in the corresponding entry in column 1 of the Chapter in question, in excess of the level specified

ngholofn 3 o Ran I o'r Atodlen honno
mewn perthynas â'r deunydd porthiant
cyfatebol, oni bai bod y deunydd
porthiant a roddir mewn cylchrediad –

in column 3 of Part I of that Schedule in
relation to the corresponding feed
material, unless the feed material put
into circulation –

(a) wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio
ar y canlynol yn unig –

(a) is intended only for use only
on –

(i) sefydliad a
gymeradwywyd neu
a ganiateir gan y DU
ar gyfer Erthygl
2.2(d);

(i) a UK approved or
permitted Article
2.2(d) establishment;

(ii) sefydliad a
gymeradwywyd neu
a ganiateir gan y DU
ar gyfer Erthygl
2.2(f);

(ii) a UK approved or
permitted Article
2.2(f) establishment;

(iii) sefydliad a
gymeradwywyd neu
a ganiateir gan y CE
ar gyfer Erthygl
2.2(d); neu

(iii) an EC approved or
permitted Article
2.2(d) establishment;
or

(iv) sefydliad a
gymeradwywyd neu
a ganiateir gan y CE

(iv) an EC approved or
permitted Article
2.2(f) establishment;

and

ar gyfer Erthygl

2.2(f);

a

(b) yn dod ynghyd â dogfen sy'n datgan –

(i) ei fod wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio gan sefydliadau o'r fath,

(ii) na chaiff gael ei fwydo i dda byw heb ei brosesu, a

(iii) faint o'r sylwedd penodedig a gynhwysir yn y deunydd penodedig.

(5) At ddibenion paragraff (4) uchod, ni fernir bod unrhyw sefydliad yn y DU neu'r CE yn sefydliad a gymeradwywyd oni bai –

(a) yn achos sefydliad yn y DU, ei fod wedi'i gynnwys yn y rhestr genedlaethol

(b) is accompanied by a document stating –

(i) that it is intended for use by such establishments,

(ii) that it may not be fed unprocessed to livestock, and

(iii) the amount of the specified substance contained in the material;

(5) For the purposes of paragraph (4) above, no UK or EC establishment shall be considered an approved establishment unless –

(a) in the case of a UK establishment, it is included in the most recently

ddiweddaraf (os oes un) sydd wedi'i chyhoeddi,

- (b) yn achos sefydliad yn y CE, ei fod wedi'i gynnwys yn y rhestr ddiweddaraf (os oes un) sydd wedi'i chyhoeddi ac sy'n cyfateb yn yr Aelod-wladwriaeth o dan sylw i'r rhestr genedlaethol.

(6) Ni chaiff neb gymysgu gydag unrhyw borthiant neu ddeunydd porthiant unrhyw ddeunydd porthiant a bennir yng ngholofn 2 o Bennod A o Ran II o Atodlen 7, os yw'r deunydd porthiant a bennir felly yn cynnwys unrhyw sylwedd a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 1 o'r Rhan honno uwchlaw'r lefel a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn 3 ohoni.

(7) Ni chaiff neb roi mewn cylchrediad unrhyw ddeunydd porthiant oni bai –

- (a) ei fod mewn cyflwr da ac yn ddilys, a
- (b) ei fod o ansawdd werthadwy.

published national list (if any),

- (b) in the case of an EC establishment, it is included in the most recently published list (if any) equivalent in the Member State concerned to the national list.

(6) No person shall mix with any feeding stuff or feed material, any feed material specified in column 2 of Chapter A of Part II of Schedule 7, if the feed material so specified contains any substance specified in the corresponding entry in column 1 of that Part in excess of the level specified in relation thereto in column 3 thereof.

(7) No person shall put into circulation any feed material unless it is –

- (a) sound and genuine, and
- (b) of merchantable quality.

(8) At ddibenion paragraff (7) uchod, a heb ragfarnu darpariaethau paragraff (3) uchod, nid yw deunydd porthiant mewn cyflwr da, yn ddilys ac o ansawdd werthadwy (pe bai'r deunydd yn cael ei ymgorffori mewn unrhyw borthiant cyfansawdd a bennir yng ngholofn 2 o Ran 1 o Atodlen 7) pe bai lefel unrhyw sylwedd a bennir yng ngholofn 1 o'r Rhan honno), ac a gynhwysir yn y deunydd porthiant, yn uwch na'r lefel a bennir ar gyfer y sylwedd hwnnw yng ngholofn 3 o'r Rhan honno mewn perthynas â'r porthiant cyfansawdd o dan sylw.

(9) Os oes neu os oedd gan berson unrhyw borthiant neu ddeunydd porthiant yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth, at ddibenion masnach neu fusnes, ac yntau'n cael gwybod –

(a) yn achos porthiant, nad yw'n cydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion ym mharagraffau (1) neu (2) uchod; neu

(b) yn achos deunydd porthiant,

(8) For the purposes of paragraph (7) above, and without prejudice to the provisions of paragraph (3) above, a feed material is not sound, genuine and of merchantable quality if (were it to be incorporated into any compound feeding stuff specified in column 2 of Part I of Schedule 7) the level of any substance specified in column 1 of that Part, and contained in the feed material, would exceed the level specified for that substance in column 3 of that Part in relation to the compound feeding stuff in question.

(9) Where a person has or has had in his possession or control, for the purposes of a trade or business, any feeding stuff or feed material and becomes aware –

(a) in the case of a feeding stuff, that it does not comply with any requirement of paragraphs (1) or (2) above; or

nad yw'n cydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion ym mharagraffau (3), (4), (7) neu (8) uchod,

(b) in the case of a feed material, that it does not comply with any requirement of paragraphs (3), (4), (7) or (8) above,

rhaid i'r person hwnnw roi gwybod ar unwaith i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i arolygydd a benodir o dan adran 67(3) gan yr awdurdod y mae arno ddyletswydd, yn rhinwedd adran 67(1A), i orfodi Rhan IV o'r Ddeddf mewn perthynas â'r porthiant neu'r deunydd porthiant o dan sylw.

that person shall immediately notify the National Assembly, and an inspector appointed under section 67(3) by the authority which, by virtue of section 67(1A), has the duty to enforce Part IV of the Act in relation to the feeding stuff or feed material in question.

(10) At ddibenion y darpariaethau uchod yn y rheoliad hwn –

(10) For the purposes of the foregoing provisions of this regulation –

(a) ystyr "porthiant" yw –

(a) "feeding stuff" means –

(i) cynnyrch sy'n deillio o lysiau neu o anifeiliaid yn ei gyflwr naturiol (yn ffres neu wedi'i gadw);

(i) a product of vegetable or animal origin in its natural state (whether fresh or preserved);

(ii) cynnyrch a geir drwy brosesu cynnyrch

(ii) a product derived from the industrial processing of such a

<p>o'r fath yn ddiwydiannol; neu</p> <p>(iii) sylwedd organig neu anorganig, a ddefnyddir ar ei ben ei hun neu mewn cymysgedd,</p>	<p>product; or</p> <p>(iii) an organic or inorganic substance, used singly or in a mixture,</p>
<p>p'un a yw'n cynnwys ychwanegion neu beidio, i'w fwydo drwy'r geg i anifeiliaid anwes, creaduriaid fferm neu anifeiliaid sy'n byw yn rhydd yn y gwyllt, a dehonglir "porthiant cydategol", "porthiant cyflawn" a "porthiant cyfansawdd" yn unol â hynny; a</p>	<p>whether or not containing additives, for oral feeding to pet animals, to farmed creatures or to animals living freely in the wild, and "complementary feeding stuff", "complete feeding stuff" and "compound feeding stuff" shall be construed accordingly; and</p>
<p>(b) ystyr "deunydd porthiant" yw cynnyrch neu sylwedd o fewn y diffiniad o "feed materials" yn Erthygl 2(b) o Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/29/EC ar sylweddau a chynhyrchion annymunol mewn maethiad anifeiliaid (th).</p>	<p>(b) "feed material" means a product or substance within the definition of "feed materials" in Article 2(b) of Council Directive 1999/29/EC on undesirable substances and products in animal nutrition(z).</p>

Rheoli porthiant cyfansawdd sy'n

Control of compound feeding stuffs

cynnwys deunyddiau gwaharddedig

13.-(1) Ni chaiff neb werthu, na meddiannu gyda golwg ar werthu, i'w ddefnyddio fel porthiant cyfansawdd, na defnyddio fel porthiant cyfansawdd, unrhyw ddeunydd sy'n cynnwys –

- (a) ysgarthion, wrin neu gynhwysion y llwybr traul wedi'u gwahanu yn sgil gwacáu neu dynnu'r llwybr traul, ni waeth a oes unrhyw fath o drin neu gymysgu wedi'i ddefnyddio;
- (b) croen wedi'i drin â sylweddau barcio, gan gynnwys y gwastraff sy'n dod ohono;
- (c) hadau neu ddeunyddiau eraill ar gyfer lluosogi planhigion sydd, ar ôl eu cynaeafu, wedi'u trin yn benodol â chynhyrchion amddiffyn planhigion gan fwriadu eu lluosogi, neu sgil-gynhyrchion sy'n deillio ohonynt;

containing prohibited materials

13.-(1) No person shall sell, or have in possession with a view to sale, for use as a compound feeding stuff, or use as a compound feeding stuff, any material which contains –

- (a) faeces, urine or separated digestive tract contents resulting from the emptying or removal of the digestive tract, irrespective of any form of treatment or admixture;
- (b) hide treated with tanning substances, including its waste;
- (c) seeds or other plant propagating materials which, after harvest, have undergone specific treatment with plant protection products for their intended propagation, or derived by-products;
- (d) wood, sawdust or other

- | | |
|---|--|
| <p>(ch) pren, blawd llif neu ddeunyddiau eraill sy'n deillio o bren a driniwyd â chynhyrchion amddiffyn pren;</p> | <p>materials derived from wood treated with wood protection products;</p> |
| <p>(d) llaid o safleoedd carthion sy'n trin dyfroedd gwastraff;</p> | <p>(e) sludge from sewage plants treating waste waters;</p> |
| <p>(dd) gwastraff trefol solet, megis gwastraff cartrefi;</p> | <p>(f) solid urban waste, such as household waste;</p> |
| <p>(e) gwastraff heb ei drin o fannau bwyta, ac eithrio bwydydd sy'n deillio o lysiau y bernir nad ydynt yn addas i bobl eu bwyta oherwydd ffresni; neu</p> | <p>(g) untreated waste from eating places, except food stuffs of vegetable origin considered unsuitable for human consumption for reasons of freshness; or</p> |
| <p>(f) pecynnau a rhannau o becynnau a ddefnyddiwyd mewn amaethyddiaeth neu yn y diwydiant bwyd.</p> | <p>(h) packaging and parts of packaging from products used in agriculture or the food industry.</p> |

(2) At ddibenion paragraff (1) uchod, ac eithrio is-baragraff (d), ystyr "gwastraff" fydd deunydd o unrhyw gategori cymwys a restrir yn Atodiad 1 i Gyfarwyddeb y Cyngor 75/442/EEC(u) ar wastraff, a deflir neu y bwriedir eu

(2) For the purposes of paragraph (1) above, except sub-paragraph (e), "waste" shall mean material of any applicable category listed in Annex 1 to Council Directive 75/442/EEC(aa) on waste, which is discarded or intended or

taflu neu y mae'n ofynnol ei daflu.

Rheoli ffynonellau protein penodol

14.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4) isod, ni chaiff neb werthu, na meddiannu gyda golwg ar werthu, i'w ddefnyddio fel porthiant neu fel ffynhonnell protein mewn porthiant, unrhyw ddeunydd sy'n perthyn i grŵp cynhyrchion a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 8, oni bai bod y deunydd hwnnw

–

- (a) wedi'i enwi yn gynnyrch a ganiateir yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno; a
- (b) yn cydymffurfio â'r holl fanylebau a gofynion a gynhwysir yng ngholofnau 3 i 6 o'r Atodlen honno a'u gorfodi ganddynt mewn perthynas ag ef.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) isod, ni chaiff neb werthu unrhyw gynnyrch a geir o furumau o'r math "Candida" a dyfir ar n–alcanau, na'i

required to be discarded.

Control of certain protein sources

14.-(1) Subject to paragraph (3) and (4) below, no person shall sell, or have in possession with a view to sale, for use as a feeding stuff or as a protein source in a feeding stuff, any material belonging to a product group specified in column 1 of Schedule 8, unless that material –

- (a) is named as a permitted product in column 2 of that Schedule; and
- (b) complies with all the specifications and requirements contained in and imposed in relation thereto by columns 3 to 6 of that Schedule.

(2) Subject to paragraph (3) below, no person shall sell, or have in possession with a view to sale, for use as a feeding stuff, or use as a feeding

EM

feddiannu gyda golwg ar ei werthu, i'w ddefnyddio fel porthiant, na'i ddefnyddio fel porthiant.

(3) Ni fydd paragraffau (1) a (2) uchod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd neu gynnyrch sydd wedi'u hepgor o gymhwysiad y Gyfarwyddeb Cynhyrchion Penodol gan Erthygl 16 ohoni.

(4) Ni fydd paragraff (1) uchod yn gymwys o dan yr amgylchiadau a awdurdodwyd ar gyfer rhan-ddirywiad gan Erthygl 3.2 o'r Gyfarwyddeb Cynhyrchion Penodol.

Rheoli'r haearn a gynhwysir mewn porthiant sy'n cymryd lle llaeth

15. Ni chaiff neb werthu, na meddiannu gyda golwg ar werthu unrhyw borthiant sy'n cymryd lle llaeth a fwriedir ar gyfer lloi hyd at 70 cilogram o bwysau byw, a'r porthiant hwnnw'n cynnwys llai na 30 miligram o haearn ym mhob cilogram o'r porthiant cyflawn yn ôl cynnwys lleithedd o 12%.

stuff, any product obtained from yeasts of the "Candida" variety cultivated on n-alkanes.

(3) Paragraphs (1) and (2) above shall not apply in relation to any material or product excluded from application of the Certain Products Directive by Article 16 thereof.

(4) Paragraph (1) above shall not apply in the circumstances authorised for derogation by Article 3.2 of the Certain Products Directive.

Control of the iron content of milk replacer feeds

15. No person shall sell, or have in possession with a view to sale, any milk replacer feed intended for calves of up to 70 kilograms live weight, which has an iron content of less than 30 milligrams per kilogram of the complete feeding stuff at a moisture content of 12%.

**Rheoli lludw sy'n anhoddadwy
mewn asid hydroclorig mewn
porthiant cyfansawdd**

16.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, ni chaiff neb werthu, na meddiannu gyda golwg ar werthu –

- (a) unrhyw borthiant cyfansawdd a gyfansoddwyd yn bennaf o sgil-gynhyrchion reis y mae lefel y lludw sy'n anhoddadwy mewn asid hydroclorig ynddynt yn uwch na 3.3% o'i fater sych; na
- (b) unrhyw borthiant cyfansawdd arall y mae lefel y lludw sy'n anhoddadwy mewn asid hydroclorig ynddo yn uwch na 2.2% o'i fater sych.

(2) Ni fydd paragraff (1)(b) uchod yn gymwys ar gyfer gwerthu unrhyw borthiant cyfansawdd sydd –

- (a) yn cynnwys glynwyr mwynol a ganiateir a enwir neu a ddisgrifir yn Rheoliad y

**Control of ash insoluble in
hydrochloric acid in compound
feeding stuffs**

16.-(1) Subject to paragraph (2) below, no person shall sell, or have in possession with a view to sale –

- (a) any compound feeding stuff composed mainly of rice by-products in which the level of ash insoluble in hydrochloric acid exceeds 3.3% of its dry matter; or
- (b) any other compound feeding stuff in which the level of ash insoluble in hydrochloric acid exceeds 2.2% of its dry matter.

(2) Paragraph (1)(b) above shall not apply to the sale of any compound feeding stuff which –

- (a) contains permitted mineral binders named or described in Commission Regulation

Comisiwn (EC) Rhif
2439/1999 ynghylch yr
amodau ar gyfer awdurdodi
ychwanegion sy'n perthyn i'r
grŵp "binders, anti-caking
agents and coagulants"
mewn porthiant **(w)**; neu

- (b) sy'n borthiant mwynol; neu
- (c) sy'n cynnwys mwy na 50% o
sglodion betys siwgr neu
fwydion betys siwgr; neu
- (ch) a fwriedir ar gyfer pysgod
fferm ac sy'n cynnwys mwy
na 15% o flawd pysgod,

os datgenir yn y gosodiad statudol fod
lefel y lludw sy'n anhoddadwy mewn
asid hydroclorig fel canran o'r porthiant
fel y cyfryw.

**Rheoli porthiant a fwriedir at
ddibenion maethiadol penodol, a
darpariaethau atodol ynghylch y
gosodiadau statudol**

17.-(1) Ni chaiff neb werthu unrhyw

(EC) No. 2439/1999 on the
conditions for authorisation of
additives belonging to the
group "binders, anti-caking
agents and coagulants" in
feedingstuffs**(bb)**; or

- (b) is a mineral feeding stuff; or
- (c) contains more than 50% of
sugar beet chips or sugar
beet pulp; or
- (d) is intended for farmed fish
and has a fish meal content
of more than 15%,

if the level of ash insoluble in
hydrochloric acid is declared in the
statutory statement as a percentage of
the feeding stuff as such.

**Control of feeding stuffs intended for
particular nutritional purposes, and
supplementary provisions relating to
statutory statements**

17.-(1) No person shall sell, or have in

borthiant a fwriedir ar gyfer diben maethiadol penodol, na'i feddiannu gyda golwg ar ei werthu, oni bai –

possession with a view to sale, any feeding stuff intended for a particular nutritional purpose unless –

- (a) bod y diben maethiadol penodol o dan sylw wedi'i bennu yng ngholofn 1 o Bennod A o Atodlen 9;
- (b) bod gan y porthiant y nodweddion maethiadol hanfodol a bennir gyferbyn â'r diben maethiadol penodol hwnnw yng ngholofn 2 o'r Bennod honno;
- (c) bod y porthiant wedi'i fwriadu ar gyfer anifeiliaid a bennir gyferbyn â'r diben maethiadol penodol hwnnw yng ngholofn 3 o'r Bennod honno;
- (ch) yr argymhellir defnyddio'r porthiant am gyfnod o amser sydd o fewn yr amrediad a bennir gyferbyn â'r diben maethiadol penodol hwnnw yng ngholofn 5 o'r Bennod honno;

- (a) the particular nutritional purpose in question is specified in column 1 of Chapter A of Schedule 9;
- (b) the feeding stuff possesses the essential nutritional characteristics specified opposite that particular nutritional purpose in column 2 of that Chapter;
- (c) the feeding stuff is intended for animals specified opposite that particular nutritional purpose in column 3 of that Chapter;
- (d) it is recommended that the feeding stuff be used for a period of time falling within the range specified opposite that particular nutritional purpose in column 5 of that Chapter;

(d) y cydymffurfir â'r gofynion a bennir ym mharagraffau 1, 2 ac 8 o Bennod B o Atodlen 9 mewn perthynas â'r porthiant; ac

(dd) bod cyfansoddiad y porthiant yn gyfryw fel bod modd iddo ateb y diben maethiadol penodol y bwriedir ef ar ei gyfer.

(2) Bydd i Atodlen 10 effaith fel y'i pennir yn Atodlen 4.

Diwygio Deddf Amaethyddiaeth 1970 mewn perthynas â phob porthiant

18.-(1) Bydd i is-adran (1) o adran 66 effaith yng Nghymru fel pe bai –

(a) y diffiniad canlynol wedi'i roi yn lle'r diffiniad o "feeding stuff"–

““feeding stuff” means –

(a) a product of vegetable or animal

(e) in relation to the feeding stuff, the requirements specified in paragraphs 1, 2 and 8 of Chapter B of Schedule 9 are complied with; and

(f) the composition of the feeding stuff is such that it is capable of achieving the particular nutritional purpose for which it is intended.

(2) Schedule 10 shall have effect as specified in Schedule 4.

Modification of the Agriculture Act 1970 in relation to all feeding stuffs

18.-(1) Subsection (1) of section 66 shall have effect in Wales as if –

(a) for the definition of "feeding stuff" there were substituted the following definition –

““feeding stuff” means –

(a) a product of vegetable or animal

origin in its natural state (whether fresh or preserved);

(b) a product derived from the industrial processing of such a product; or

(c) an organic or inorganic substance, used singly or in a mixture;

whether or not containing additives, for oral feeding to pet animals or farmed creatures;"; a

(b) y diffiniad canlynol wedi'i roi yn lle'r diffiniad o "pet animal"—

"pet animal" has the same meaning as in Council Directive 70/524/EEC concerning additives in feeding stuffs as amended;"; ac

origin in its natural state (whether fresh or preserved);

(b) a product derived from the industrial processing of such a product; or

(c) an organic or inorganic substance, used singly or in a mixture;

whether or not containing additives, for oral feeding to pet animals or farmed creatures;"; and

(b) for the definition of "pet animal" there were substituted the following definition –

"pet animal" has the same meaning as in Council Directive 70/524/EEC concerning additives in feeding stuffs as amended;"; and

- (c) y diffiniad canlynol wedi'i fewnosod cyn y diffiniad o "prescribed" -

““premixture” means a mixture of additives, or a mixture of additives with substances used as carriers, intended for the manufacture of feeding stuffs;”.

- (2) Bydd i is-adran (2) o adran 66 effaith yng Nghymru fel pe bai'r canlynol wedi'i roi yn lle paragraff (b) –

“(b) material shall be treated –

- (i) as imported or sold for use as a feeding stuff whether it is imported or, as the case may be, sold, to be used by itself, or as an ingredient, additive or premixture in something which is to be so used; and

- (c) before the definition of “prescribed” there were inserted the following definition-

““premixture” means a mixture of additives, or a mixture of additives with substances used as carriers, intended for the manufacture of feeding stuffs;”.

- (2) Subsection (2) of section 66 shall have effect in Wales as if for paragraph (b) there was substituted –

“(b) material shall be treated –

- (i) as imported or sold for use as a feeding stuff whether it is imported or, as the case may be, sold, to be used by itself, or as an ingredient, additive or premixture in something which is to be so used; and

(ii) as used as a feeding stuff whether it is so used by itself, or as an ingredient, additive or premixture in something which is to be so used.”.

(ii) as used as a feeding stuff whether it is so used by itself, or as an ingredient, additive or premixture in something which is to be so used.”.

(3) Bydd i adrannau 73 a 73A effaith yng Nghymru fel pe bai'r geiriau “any farmed creatures” wedi'u rhoi yn lle'r geiriau “animals of any description prescribed for the purpose of the definition of “feeding stuff” in section 66(1) of this Act”.

(3) Sections 73 and 73A shall have effect in Wales as if, for the words “animals of any description prescribed for the purpose of the definition of “feeding stuff” in section 66(1) of this Act” there were substituted the words “any farmed creatures”.

(4) Bydd i adran 85 effaith yng Nghymru fel pe na bai –

(4) Section 85 shall have effect in Wales as if –

(a) paragraff (a) yn gymwys mwyach i'r graddau y mae'n ymwneud â chludo y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a

(a) insofar as it relates to delivery outside the United Kingdom, paragraph (a) no longer applied, and

(b) paragraff (b) yn gymwys mwyach.

(b) paragraph (b) no longer applied.

Diwygio Deddf Amaethyddiaeth 1970

Modification of the Agriculture Act

mewn perthynas â phorthiant wedi'i fewnforio

19.-(1) Mewn perthynas â phorthiant sydd wedi'i fewnforio, bydd adran 69(1) yn parhau yn effeithiol yng Nghymru fel pe bai'n ddarostyngedig i'r diwygiadau y darperir ar eu cyfer yn y paragraff canlynol.

(2) Mae'r geiriau "and in either case before it is removed from the premises" i'w dileu.

Esemptiadau rhag y Rheoliadau hyn

20. I'r graddau y mae darpariaethau'r Rheoliadau hyn yn gweithredu'r Gyfarwyddeb Porthiant Cyfansawdd, ni fyddant yn gymwys o dan yr amgylchiadau a bennir yn Erthygl 14(c) o'r Gyfarwyddeb honno.

Esemptiadau pellach rhag y Rheoliadau hyn

21. Ni fydd darpariaethau rheoliad 11(2) (i'r graddau y maent yn rheoleiddio rhoi ychwanegion a deunyddiau sy'n cynnwys ychwanegion mewn

1970 in relation to imported feeding stuffs

19.-(1) In relation to feeding stuffs which have been imported, section 69(1) shall continue to have effect in Wales as if it was subject to the modifications provided for in the following paragraph.

(2) The words "and in either case before it is removed from the premises" shall be deleted.

Exemptions from these Regulations

20. Insofar as provisions of these Regulations implement the Compound Feeding Stuffs Directive, they shall not apply in the circumstances specified in Article 14(c) of that Directive.

Further exemptions from these Regulations

21. The provisions of regulation 11(2) (in so far as they regulate the putting into circulation of additives and material containing additives), and the provisions

cylchrediad), na darpariaethau rheoliad 11(7)(a), yn gymwys o dan yr amgylchiadau a bennir yn Erthygl 9q5 o'r Gyfarwyddeb Ychwanegion.

Gorfodi darpariaethau a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972

22. I'r graddau y gwneir unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, bydd y ddarpariaeth honno'n orfodadwy fel pe bai wedi'i gwneud o dan y darpariaethau hynny yn Rhan IV o'r Ddeddf y gwneir darpariaethau eraill y Rheoliadau hyn odanynt, a bydd darpariaethau'r Rhan honno yn gymwys yn unol â hynny.

Diddymiadau

23. Mae Rheoliadau Porthiant 1995(**y**), Rheoliadau Porthiant (Diwygio) 1996(**aa**), Rheoliadau Porthiant (Diwygio) 1998(**ab**), Rheoliadau Porthiant (Diwygio) (Rhif 2) 1998(**ac**) a Rheoliadau Porthiant (Diwygio) 1999(**ach**) drwy hyn wedi'u diddymu

of regulation 11(7)(a), shall not apply in the circumstances specified in Article 9q5 of the Additives Directive.

Enforcement of provisions made under section 2(2) of the European Communities Act 1972

22. Insofar as any provision of these Regulations is made under section 2(2) of the European Communities Act 1972, that provision shall be enforceable as if it were made under those provisions of Part IV of the Act under which the other provisions of these Regulations are made, and the provisions of that Part shall apply accordingly.

Revocations

23. The Feeding Stuffs Regulations 1995(**ac**), the Feeding Stuffs (Amendment) Regulations 1996(**ad**), the Feeding Stuffs (Amendment) Regulations 1998(**ae**), the Feeding Stuffs (Amendment) (No. 2) Regulations 1998(**af**) and the Feeding Stuffs

EM

mewn perthynas â Chymru.

**Diwygio adran 74A(3) o Ddeddf
Amaethyddiaeth 1970**

24.-(1) Mewn perthynas â Chymru, at ddibenion y darpariaethau a bennir ym mharagraff (2) isod, bydd i adran 74A(3) effaith fel pe bai'r geiriau "any provision specified in regulation 24(2) of the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2001" wedi'u rhoi yn lle'r geiriau "regulations under subsection (1) above, or fails to comply with any other provision of the regulations,".

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw rheoliadau 10(1), (2), (3)(a), (4) (mewn perthynas â rhoi mewn cylchrediad) (6) a (7), 11(3)(a), (c) a (d), (4), (6) a (7) a 12(3), (4), (6), (7) a (9).

**Diwygio Rheoliadau Porthiant
(Samplu a Dadansoddi) 1999**

(Amendment) Regulations 1999(**ag**) are hereby revoked in relation to Wales.

**Modification of section 74A(3) of the
Agriculture Act 1970**

24.-(1) In relation to Wales, for the purposes of the provisions specified in paragraph (2) below, section 74A(3) shall have effect as if, for the words "regulations under subsection (1) above, or fails to comply with any other provision of the regulations," there were substituted the words "any provision specified in regulation 24(2) of the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2001".

(2) The provisions specified for the purposes of paragraph (1) are regulations 10(1), (2), (3)(a), (4) (in relation to putting into circulation) (6) and (7), 11(3)(a), (c) and (d), (4), (6) and (7) and 12(3), (4), (6), (7) and (9).

**Modification of the Feeding Stuffs
(Sampling and Analysis) Regulations
1999**

25. Yn Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999(**ad**) –

- (a) bydd i baragraff 5(1) o Ran II o Atodlen 1 effaith yng Nghymru fel pe bai'r geiriau "section 76(1)(b) of the Act" yn darllen "section 76(7) of the Act, as that section is modified by regulation 10 of the Feeding Stuffs (Enforcement) Regulations 1999"**(add)**, a
- (b) bydd i'r cyfeiriadau ym mharagraff 3(e)(ii) o Ran I o Atodlen 2, a pharagraff 11(a) o Ran II o Atodlen 3, at "the Feeding Stuffs Regulations 1995", effaith yng Nghymru fel pe baent yn darllen "the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2001", ac
- (c) bydd i'r ail gofnod ar gyfer starts (dull polarimetrig), yn Atodiad I i Ran II i Atodlen 2, effaith yng Nghymru fel pe bai'r darpariaethau canlynol

25. In the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999(**ah**) –

- (a) paragraph 5(1) of Part II of Schedule 1 shall have effect in Wales as if the words "section 76(1)(b) of the Act" read "section 76(7) of the Act, as that section is modified by regulation 10 of the Feeding Stuffs (Enforcement) Regulations 1999"**(ai)**, and
- (b) the references in paragraph 3(e)(ii) of Part I of Schedule 2, and paragraph 11(a) of Part II of Schedule 3, to "the Feeding Stuffs Regulations 1995", shall have effect in Wales as if they read "the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2001", and
- (c) the second entry for starch (polarimetric method), in Annex I to Part II to Schedule 2, shall have effect in Wales as if, for the provisions

wedi'i rhoi yn lle'r
darpariaethau sy'n ymwneud
â'r cofnod hwnnw yng
ngholofnau 2 a 3:

Point 1 of Annex 1 to
Directive 72/199/EEC (as
replaced entirely by the
Annex to Directive
1999/79/EC)(4) (4) OJ No.
L123, 29.5.72, p. 6 (OJ/SE
1966-1972 supplement, p.
74. OJ No. L209,
7.8.1999, p.23).

Diwygio Rheoliadau Porthiant (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999

26.-(1) Bydd i ddarpariaethau
Rheoliadau Porthiant (Sefydliadau a
Chyfryngwyr) 1999(**ae**) a bennir ym
mharagraff (2) isod effaith yng Nghymru
fel pe bai'r geiriau “, as amended by the
Feedingstuffs (Zootechnical Products)
Regulations 1999 and as modified by
the Feeding Stuffs (Wales) Regulations
2001,”(**af**) wedi'u hychwanegu ar ôl y

relating to that entry in
columns 2 and 3, there were
substituted the following
provisions:

Point 1 of Annex 1 to
Directive 72/199/EEC
(as replaced entirely by
the Annex to Directive
1999/79/EC)(4) (4) OJ
No. L123, 29.5.72, p. 6
(OJ/SE 1966-1972
supplement, p. 74. OJ
No. L209, 7.8.1999,
p.23).

Modification of the Feeding Stuffs (Establishments and Intermediaries) Regulations 1999

26.-(1) The provisions of the Feeding
Stuffs (Establishments and
Intermediaries) Regulations 1999(**aj**)
specified in paragraph (2) below shall
have effect in Wales as if, after the
words “the Feeding Stuffs (Sampling
and Analysis) Regulations 1999”,
wherever they occur, there were added
the words “, as amended by the

geiriau “the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999”, lle bynnag y’u gwelir.

(2) Y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) uchod yw rheoliadau 98(8) a (9), 99 a 106(1).

Diwygio Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) 1999

27. Yn Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) 1999(**aff**) –

(a) yn rheoliad 7(2) a (4), bydd i’r cyfeiriadau at “the Feeding Stuffs Regulations 1995”, effaith mewn perthynas â Chymru fel pe baent yn darllen “the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2001”,

(b) yn rheoliad 8, bydd i’r cyfeiriad at Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999 effaith mewn perthynas â Chymru fel pe bai’n gyfeiriad at y Rheoliadau hynny wedi’u

Feedingstuffs (Zootechnical Products) Regulations 1999 and as modified by the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2001,”(**ak**).

(2) The provisions referred to in paragraph (1) above are regulations 98(8) and (9), 99 and 106(1).

Modification of the Feeding Stuffs (Enforcement) Regulations 1999

27. In the Feeding Stuffs (Enforcement) Regulations 1999(**al**)–

(a) in regulation 7(2) and (4), the references to “the Feeding Stuffs Regulations 1995”, shall have effect in relation to Wales as if they read “the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2001”,

(b) in regulation 8, the reference to the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999 shall have effect in relation to Wales as if it were a reference to those Regulations as

diwygio gan Reoliadau Porthiant
(Cynhyrchion Söotechnegol)
1999 ac fel y'u diwygir gan y
Rheoliadau hyn;

amended by the Feedingstuffs
(Zootechnical Products)
Regulations 1999 and as
modified by these Regulations;

(c) bydd i reoliad 9 effaith mewn
perthynas â Chymru fel pe bai
darpariaethau canlynol wedi'u
rhoi yn lle darpariaethau'r
rheoliad honno:

(c) regulation 9 shall have effect in
relation to Wales as if, for the
provisions of that regulation,
there were substituted the
following provisions:

**“Modification of section
67(8) of the Agriculture
Act 1970**

**“Modification of section
67(8) of the Agriculture
Act 1970**

9. In Wales, section 67(8)
of the Act shall (as specified
in regulation 7) have effect
as if, for the provisions of
that subsection, there were
substituted the following
provisions:

9. In Wales, section 67(8)
of the Act shall (as specified
in regulation 7) have effect
as if, for the provisions of
that subsection, there were
substituted the following
provisions:

“(8) If the
National Assembly for
Wales is of opinion
that, in any area
covered by an
enforcement authority,

“(8) If the
National Assembly for
Wales is of opinion
that, in any area
covered by an
enforcement authority,

the Feeding Stuffs
(Wales) Regulations
2001 or section 73 or
73A of the Act have
been –

(a) insufficiently
enforced or
administered
by the
authority
concerned,
or

(b) enforced or
administered
by it without
sufficient
regard to the
requirements
of Council
Directive
95/53/EC
fixing the
principles
governing
the
organisation
of official

the Feeding Stuffs
(Wales) Regulations
2001 or section 73 or
73A of the Act have
been –

(a) insufficiently
enforced or
administered
by the
authority
concerned,
or

(b) enforced or
administered
by it without
sufficient
regard to the
requirements
of Council
Directive
95/53/EC
fixing the
principles
governing
the
organisation
of official

inspections in
the field of
animal
nutrition, as
amended by
Council
Directive
1999/20/EC,

inspections
in the field of
animal
nutrition, as
amended by
Council
Directive
1999/20/EC,

it may appoint one or more
inspectors to exercise the
powers exercisable by
inspectors appointed by the
authority in question, and
any expenses certified by it
as having been incurred by
it under this subsection
shall be repaid to it on
demand by that authority.”

(ag) (ang (ah)); ac

(ch) darllenir rheoliad 10, i'r
graddau y mae'n diwygio
adran 76 mewn perthynas â
Chymru, fel pe bai, yn yr
adran honno fel y'i diwygiwyd

–

(i) y cyfeiriadau yn is-

it may appoint one or more
inspectors to exercise the
powers exercisable by
inspectors appointed by the
authority in question, and
any expenses certified by it
as having been incurred by
it under this subsection
shall be repaid to it on
demand by that authority.”

(am) (an) (ao); and

(d) regulation 10 shall, in so far
as it modifies section 76 in
relation to Wales, be read as
if, in that section as so
modified –

(i) in subsections (8),

- adrannau (8), (9) a (10) at Reoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999 yn gyfeiriadau at y Rheoliadau hynny fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Porthiant (Cynhyrchion Söotechnegol) 1999 ac fel y'i diwygir gan y Rheoliadau hyn, a
- (ii) cyfeiriadau at y Rheoliadau hyn wedi'u rhoi yn lle'r cyfeiriadau yn is-adran 17 at Reoliadau Porthiant 1995.
- (9) and (10), the references to the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999 were references to those Regulations as amended by the Feedingstuffs (Zootechnical Products) Regulations 1999 and as modified by these Regulations, and
- (ii) for the references in subsection 17 to the Feeding Stuffs Regulations 1995 there were substituted references to these Regulations.

EM

o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(ai)**

of the Government of Wales Act
1998**(ap)**

[] 2001

[] 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer
of the National Assembly

[ENDNOTES – WILL APPEAR IN PRINTED VERSION AS FOOTNOTES]

- (a) 1970 p.40; mewnosodwyd adran 74A gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, p.68, Atodlen 4, paragraff 6. Diwygiwyd y Ddeddf hefyd gan Reoliadau Diwygio Deddf Amaethyddiaeth 1970 1982 (O.S. 1982/980). Mae adran 66(1) yn cynnwys diffiniadau o'r ymadroddion "the Ministers" (y Gweinidogion), "prescribed" (a ragnodwyd) a "regulations" (rheoliadau); diwygiwyd y diffiniadau o "the Ministers" gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), Atodlen 5, paragraff 1.
- (b) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. Rhif 1999/672).
- (c) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 1999 (O.S. Rhif 1999/2788).
- (ch) 1972 p.68.
- (d) O.S. 1996/3183. Yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1999/921.
- (dd) OJ Rhif L279, 20.12.71, t.7 (OJ/SE 1971 (III), t.987). (Disodlwyd Rhan IV yn llwyr gan Atodiad 1 i Gyfarwyddeb 84/4/EEC (OJ Rhif L15. 18.1.84, t.28).
- (a) 1970 c. 40; section 74A was inserted by the European Communities Act 1972, c. 68, Schedule 4, paragraph 6. The Act was also amended by the Agriculture Act 1970 Amendment Regulations 1982 (S.I. 1982/980). Section 66(1) contains definitions of the expressions "the Ministers", "prescribed" and "regulations"; the definitions of "the Ministers" was amended by the Transfer of Functions (Wales) (No. 1) Order 1978 (S.I. 1978/272), Schedule 5, paragraph 1.
- (b) By virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. No. 1999/672).
- (c) By virtue of the European Communities (Designation) (No. 3) Order 1999 (S.I. No. 1999/2788).
- (d) 1972 c.68.
- (e) OJ No. L270, 14.12.70, p.11 (OJ/SE Vol. 18, p.4) last amended by Council Directive 1999/20/EC (OJ No. L80, 25.3.1999, p.20).
- (f) OJ No.L155, 12.7.71, p.13 (OJ/SE 1971(II), p.480).

EM

Disodlwyd yr Atodiad hwnnw yn ei dro yn llwyr gan Ran B o'r Atodiad i Gyfarwyddeb 98/64/EC (OJ Rhif L257, 19.9.98, t.14)).

(e) O.S. 1998/1046 (y ceir diwygiad iddynt nad yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn).

(f) Y cyfeiriad ar gyfer Cytundeb Ardal Economaidd Ewrop yw OJ Rhif L1, 3.1.94, t.1. Y cyfeiriad ar gyfer y protocol a lofnodwyd ar 17 Mawrth 1993 yw OJ Rhif L1, 3.1.94, t.571.

(ff) OJ Rhif L83, 30.3.73, t.21. (Disodlwyd Pwynt 3 o Atodiad 1 yn llwyr gan yr Atodiad i Gyfarwyddeb 92/89/EEC) (OJ Rhif L344, 26.11.92, t.35)).

(g) OJ Rhif L213, 21.7.82, t.8, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/20/EC (OJ Rhif L80, 25.3.1999, t.20).

(ng) OJ Rhif L64, 7.3.87, t.19, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 95/11/EC (OJ Rhif L106, 11.5.95, p.23).

(h) OJ Rhif L125, 23.5.96, t.35, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2000/16 Senedd Ewrop a'r Cyngor (O.J. Rhif L105, 3.5.2000, t.36).

(i) OJ Rhif L86, 6.4.79, t.30, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2000/16 Senedd Ewrop a'r Cyngor (O.J. Rhif L105, 3.5.2000, t.36).

(g) S.I. 1998/1046 (to which there is an amendment not relevant to these Regulations).

(h) OJ No. L213, 21.7.82, p.8. Last amended by Council Directive 1999/20/EC (OJ No. L80, 25.3.1999, p.20).

(i) OJ No. L86, 6.4.79, p.30. Last amended by Directive 2000/16 of the European Parliament and the Council (O.J. No. L105, 3.5.2000, p.36).

(j) OJ No. L64, 7.3.87, p.19. Last amended by Commission Directive 95/11/EC (OJ No. L106, 11.5.95, p.23).

(k) OJ No. L332, 30.12.95, p.15. Last amended by Council Directive 1999/20/EC (OJ No. L80, 25.3.1999, p.20).

(l) The reference for the European Economic Area Agreement is OJ No. L1, 3.1.94, p.1. The reference for the Protocol signed on 17th March 1993 is OJ No. L1, 3.1.94, p.571.

(m) OJ No. L279, 20.12.71, p.7 (OJ/SE 1971 (III), p.987). (Part IV was replaced entirely by Annex 1 to Directive 84/4/EEC (OJ No. L15. 18.1.84, p.28). That Annex was in turn replaced entirely

- (j) OJ Rhif L92, 7.4.90, t.42.
- (l) OJ Rhif L332, 30.12.95, t.15, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/20/EC (OJ Rhif L80, 25.3.1999, t.20).
- (ll) OJ Rhif L270, 14.12.70, t.11 (OJ/SE Cyf. 18, t.4) a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/20/EC (OJ Rhif L80, 25.3.1999, t.20).
- (m) OJ Rhif L279, 20.12.71, t.7 (OJ/SE 1971 (III), t.987), a ddiwygiwyd gan Erthygl 1 o Gyfarwyddeb 73/47/EEC (OJ Rhif L83, 30.3.73, t.35).
- (n) OJ Rhif L155, 12.7.71, t.13 (OJ/SE 1971(II), t.480).
- (o) OJ Rhif L279, 20.12.71, t.7 (OJ/SE 1871 (III), t.987). (Disodlwyd Rhan IV yn llwyr gan atodiad 1 i Gyfarwyddeb 84/4/EEC (OJ Rhif L15. 18.1.84, t.28). Disodlwyd yr Atodiad hwnnw yn ei dro yn llwyr gan Ran B o'r Atodiad i Gyfarwyddeb 98/64/EC (OJ Rhif L257, 19.9.98, t.14).
- (p) O.S. 1998/1046.
- by Part B of the Annex to Directive 98/64/EC (OJ No. L257, 19.9.98, p.14)).
- (n) OJ No. L125, 23.5.96, p.35. Last amended by Directive 2000/16 of the European Parliament and the Council (OJ No. L105, 3.5.2000, p.36).
- (o) OJ No. L83, 30.3.73, p.21. (Point 3 of Annex 1 was replaced entirely by the Annex to Directive 92/89/EEC) (OJ No. L344, 26.11.92, p.35)).
- (p) S.I. 1996/3183. The relevant amending instrument is S.I. 1999/921.
- (q) OJ No. L92, 7.4.90, p.42.
- (r) S.I. 1998/1046.
- (s) OJ No. L279, 20.12.71, p.7 (OJ/SE 1971 (III), p.987), amended by Article 1 of Directive 73/47/EEC (OJ No.L83, 30.3.73, p.35).
- (t) OJ No. L279, 20.12.71, p.7 (OJ/SE 1871 (III), p.987). (Part IV was replaced entirely by annex 1 to Directive 84/4/EEC (OJ No. L15. 18.1.84, p.28). That Annex was in turn replaced entirely by Part B of the annex to Directive 98/64/EC (OJ No.L257, 19.9.98, p.14)).

EM

(ph) OJ Rhif L123, 29.5.72, t.6 (OJ/SE 1966-1972 atodiad, t.74), (Mae Pwynt 2 o Atodiad 1 wedi'i ddisodli gan yr Atodiad i Gyfarwyddeb 93/28/EEC (OJ Rhif 179, 22.7.93, t.8)).

(r) O.S. 1999/1872 (y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn).

(rh) OJ Rhif L123, 29.5.72, t.6 (OJ/SE 1966-1972 atodiad, t.74), (Mae Pwynt 1 o Atodiad 1 wedi'i ddisodli yn llwyr gan yr atodiad i Gyfarwyddeb 1999/79/EC (OJ Rhif L209, 7.8.1999, t.25)).

(s) OJ Rhif L347, 23.12.98, t.21.

(t) O.S. 1996/3183.

(th) OJ Rhif L115, 4.5.1999, t. 32.

(u) OJ Rhif L194, 25.7.75, t.39, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 96/350/EC (OJ Rhif L135, 6.6.96, t.32).

(w) OJ Rhif L297, 18.11.1999, t.8, a ddiwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 739/2000 (OJ Rhif L87, 8.4.2000, t.14).

(y) O.S. 1995/1412.

(aa) O.S. 1996/1260.

(ab) O.S. 1998/104.

(ac) O.S. 1998/2072.

(ach) O.S. 1999/1528.

(ad) O.S. 1999/1663 (y ceir diwygiad iddo nad yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn).

(u) OJ No. L123, 29.5.72, p.6 (OJ/SE 1966-1972 supplement, p.74), (Point 2 of Annex 1 has been replaced by the Annex to Directive 93/28/EEC (OJ No.179, 22.7.93, p.8)).

(v) OJ No. L123, 29.5.72, p.6 (OJ/SE 1966-1972 supplement, p.74), (Point 1 of Annex 1 has been replaced entirely by the annex to Directive 1999/79/EC (OJ No. L209, 7.8.1999, p.25)).

(w) S.I. 1999/1872 (to which there are modifications not relevant to these Regulations).

(x) OJ No. L347, 23.12.98, p.21.

(y) S.I. 1996/3183.

(z) OJ No. L115, 4.5.1999, p.32.

(aa) OJ No. L194, 25.7.75, p.39. Last amended by Commission Decision 96/350/EC (OJ No. L135, 6.6.96, p.32).

(ab) OJ No. L297, 18.11.1999, p.8. Amended by Commission Regulation (EC) No. 739/2000 (OJ No. L87, 8.4.2000, p.14).

(ac) S.I. 1995/1412.

(ad) S.I. 1996/1260.

(ae) S.I. 1998/104.

(af) S.I. 1998/2072.

(ag) S.I. 1999/1528.

(ah) S.I. 1999/1663 (to which there is an amendment not relevant to these Regulations).

EM

(add) O.S. 1999/2325.

(ae) O.S. 1999/1872 (y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn).

(af) Y cyfeiriad ar gyfer y cyn Reoliadau yw O.S. 1999/1871 (y mae diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn).

(aff) O.S. 1999/2325.

(ag) Y cyfeiriad ar gyfer Cyfarwyddeb y Cyngor 95/53/EC yw OJ Rhif L265, 8.11.95, t.17.

(ang) Y cyfeiriad ar gyfer Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/20/EC yw OJ Rhif L80, 25.3.99, t.20.

(ah) Diwygiwyd rheoliad 9 o'r Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) 1999 o'r blaen, mewn perthynas â Chymru a Lloegr, gan reoliad 4(3) o Reoliadau Deddf Safonau Bwyd 1999 (Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol ac Eithriadau) (Cymru a Lloegr) 2000 (O.S. 2000/656).

(ai) 1998 p.38.

(1) Mae Rhanau I i VIII yn berthnasol i ychwanegion a reolir gan Gyfarwyddebau'r Gymuned Ewropeaidd. Mae Rhan IX yn berthnasol i ychwanegion a reolir gan Reoliadau'r Gymuned Ewropeaidd yn unig.

(ai) S.I. 1999/2325.

(aj) S.I. 1999/1872 (to which there are modifications not relevant to these Regulations).

(ak) The reference for the former Regulations is S.I. 1999/1871 (to which there are modifications not relevant to these Regulations).

(al) S.I. 1999/2325.

(am) The reference for Council Directive 95/53/EC is OJ No. L265, 8.11.95, p.17.

(an) The reference for Council Directive 1999/20/EC is OJ No. L80, 25.3.99, p.20.

(ao) Regulation 9 of the Feeding Stuffs (Enforcement) Regulations 1999 was previously modified, in relation to England and Wales, by regulation 4(3) of the Food Standards Act 1999 (Transitional and Consequential Provisions and Savings) (England and Wales) Regulations 2000 (S.I. 2000/656).

(ap) 1998 c.38.

(1) Parts I to VIII relate only to additives regulated by European Community Directives. Part IX relates only to additives regulated by European Community Regulations.